# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HAF 2022**

**TGAU**
**CYMRAEG IAITH - UNED 3**
**3000N30-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2022. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYNLLUNIAU MARCIO TGAU**

**CYMRAEG IAITH - UNED 3**

**HAF 2022**

**Adran A (Darllen): 30 marc**

**Darn Darllen 1**
**Rhybudd am dywydd poeth**

**A1.** Pa **ddau** beth mae'r Swyddfa Dywydd yn ein cynghori ni i'w gwneud yn ystod tywydd poeth? [1]

- Gwisgo eli haul
- Yfed digon o ddŵr

2 ffaith = 1 marc

Adalw Gwybodaeth

**A2.** Ble bydd hi boethaf ddydd Mercher? Rhowch ✓ yn y blwch priodol. [1]

| | |
|---|---|
| Caerdydd | ☐ |
| Caeredin | ☐ |
| Llundain | ✓ |
| Birmingham | ☐ |

Dehongli ac adalw gwybodaeth

© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 2**
**7 ffordd o gael gwell cwsg yn y tywydd poeth**

**A3.** Mae pedwar o'r gosodiadau isod yn gywir wrth drafod ffyrdd o gysgu'n well pan mae'r tywydd yn boeth. Mae un ateb cywir wedi'i roi i chi'n barod. Rhowch ✓ yn y blychau gyferbyn â'r **tri** sylw cywir arall. [3]

| | |
|---|---|
| Mae hi'n boethach yn y llofft nag ydy hi lawr y grisiau. | ✓ |
| Mae rhoi eich dwylo o dan dap dŵr poeth yn oeri'r gwaed yn eich gwythiennau. | |
| Mae chwysu yn oeri tymheredd y corff. | ✓ |
| Mae diffodd teledu yn y plwg yn cael effaith ar dymheredd ystafell. | ✓ |
| Mae ymolchi mewn dŵr oer peth cyntaf yn y bore yn eich helpu i gysgu yn y nos. | |
| Mae cysgu drws nesaf i botel o ddŵr wedi rhewi yn eich cadw'n oer drwy'r nos. | |
| Mae rhoi'r dillad gwely yn yr oergell am ychydig yn gwneud cysgu'n dasg haws. | ✓ |
| Mae yfed diod boeth yn gostwng tymheredd y corff yn syth. | |

Adalw a dehongli gwybodaeth

© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 3**
**Cŵn Poeth Mewn Ceir**

**A4.** Esboniwch pam mae'r awdur wedi dewis y teitl "Cŵn Poeth Mewn Ceir". Ydy hwn yn deitl addas yng nghyd-destun y blog? [3]

- Sylw cyffredinol am gŵn yn boeth mewn gwres / mewn car – 1 marc
- Cysylltu "cŵn poeth" fel rhywbeth i'w fwyta gyda'r ffaith bod y darn yn trafod cŵn poeth mewn ceir (chwarae ar eiriau) / Sylweddoli bod yr ansoddair yn y lle anghywir yn y teitl – 2 farc
- Ystyried nad yw "cŵn poeth" yn addas yma gan fod y darn yn rhybuddio am beryglon – defnyddio hiwmor mewn darn lle mae'r cynnwys yn rhy ddifrifol i'w ddefnyddio (elfen ddi-chwaeth) – 3 marc.

Dadansoddi a dehongli

**A5**. Esboniwch pa symptomau mae cŵn yn eu dangos wrth ddatblygu strôc gwres. [2]


- (dechrau) glafoerio
- (dechrau) chwydu
- anhawster cerdded
- llewygu
- ffitiau

1 marc yr un hyd at 2

© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 4**
**O na fyddai'n haf o hyd?**

**A6.** Pa ffaith sy'n wir am ba rif? Rhowch linellau clir a thaclus i gysylltu'r ffaith gyda'r rhif cywir. Mae un wedi'i gysylltu eisoes. [2]




0 – 1 = 0 marc
2 – 3 = 1 marc
4 = 2 farc

Adalw a dehongli gwybodaeth

© WJEC CBAC Cyf.

**Darnau Darllen 3 a 4**
**Cŵn Poeth Mewn Ceir**
**O na fyddai'n haf o hyd?**

**A7.** Mae gwres a chyfnod o dywydd poeth yn gallu achosi llawer o broblemau.
**Cyfunwch a chrynhowch wybodaeth** o'r ddau ddarn darllen i ddangos

- pa broblemau sy'n cael eu hachosi gan wres
- sut gallwn ni helpu mewn rhai achosion [6]

<table>
<tr><td>Darn Darllen 3</td><td>Darn Darllen 4</td></tr>
<tr><td>

**Problemau**

- Mae gadael eich anifail anwes mewn car poeth am 'ddim ond 5 munud' yn beryglus dros ben.
- Colli golwg ar yr amser.
- Symptomau gwres – glafoerio, chwydu, anhawster cerdded llewygu, ffitiau.
- Marwolaeth
- I gi mewn car poeth, gall 5 munud deimlo fel tragwyddoldeb.
- Gall strôc gwres ddigwydd mewn 10 munud neu lai.
- Gall tymheredd car sydd â'i ffenestri ar agor godi mwy na 10 gradd mewn dim ond 10 munud.
- Nid yw agor y ffenestri neu adael dŵr yn y car yn ddigon i atal strôc gwres.
- Yn wahanol i bobl, nid yw cŵn yn gallu chwysu – ddim yn ffordd effeithiol i gi gael gwared ar wres o'i gorff.

**Sut i helpu**

- Gadewch eich ci gartref.
- Dewch â rhywun arall gyda chi i aros yn y cysgod gyda'r ci os byddwch yn siopa.
- Os gwelwch chi gi wedi ei gau mewn car poeth, ffoniwch yr RSPCA neu'r heddlu ar unwaith.

</td><td>

**Problemau**

- Lefelau nifer o gronfeydd dŵr yn gostwng yn sylweddol.
- Dim digon o ddŵr i alluogi i wasanaethau allweddol fel y gwasanaeth tân ac ysbytai i barhau i weithredu.
- Pla o bryfed (buwch goch gota) yn ymosod ar bentrefi, trefi a dinasoedd.
- Coed sy'n sensitif i sychder yn marw (ffawydd).
- Afonydd yn sychu'n llwyr (Sheffield).
- Difrodi cnydau sy'n arwain at brisiau bwyd yn codi.
- Cynnydd mewn tanau eithin a thanau mynydd.

**Sut i helpu**

- Gwahardd defnyddio pibau dŵr yn yr ardd.
- Gorfodi rhai cwmnïau i gwtogi eu hwythnos waith.
- Rhoi pwerau i awdurdodau lleol ddiffodd y cyflenwad dŵr am gyfnodau yn ystod y dydd.
- Defnyddio tapiau dŵr cyhoeddus yn y stryd yn unig.
- Gorchymyn cwmnïau i haneru eu defnydd o ddŵr (gan gynnwys pyllau glo a gweithfeydd dur / diwydiant).

</td></tr>
</table>

Gellir cyfeirio at bwyntiau eraill perthnasol.

© WJEC CBAC Cyf.

**0 marc**
os na cheir ymdrech i ateb y cwestiwn.

**1 marc**
peth ymdrech i gyfuno gwybodaeth o'r ddau destun drwy restru'r problemau a'r datrysiadau yn fras (1-4 pryder/ ffordd o helpu)

**2 farc**
peth ymdrech i gyfuno gwybodaeth o'r ddau destun drwy restru'r problemau a'r datrysiadau (5+ pryder/ffordd o helpu)

**3 marc**
ymdrech eithaf da i gyfuno gwybodaeth o'r ddau destun wrth restru'r problemau a'r datrysiadau a dechrau dehongli'r wybodaeth yn arwynebol

**4 marc**
cyfuno gwybodaeth o'r ddau destun yn dda a dehongli'r wybodaeth yn dda a chyson

**5 marc**
cyfuno gwybodaeth o'r ddau destun yn dda iawn a dehongli'r wybodaeth yn bwrpasol

**6 marc**
cyfuno gwybodaeth o'r ddau destun yn aeddfed gan ddehongli'r wybodaeth yn aeddfed a threfnus

Cyfuno, dehongli a chrynhoi

© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 5**
**Gwisgo sgert i'r ysgol**

**A8.** Pa **un** o'r datganiadau canlynol sy'n gywir? Rhowch ✓ yn un o'r blychau. [1]

| | |
|---|---|
| Mae pennaeth Ysgol Gyfun Abersaint yn trin bechgyn a merched yn gyfartal. | |
| Mae pennaeth Ysgol y Cwm yn fodlon gwrando ar y disgyblion. | ✓ |
| Roedd rhai bechgyn wedi benthyg sgertiau gan eu mamau. | |
| Cyn gwneud newidiadau i wisg ysgol rhaid trafod gyda'r Cyngor Sir, rhieni a llywodraethwyr yr ysgol. | |

**A9.** Yn eich barn chi, beth yw neges yr awdur yn y darn hwn? Defnyddiwch dystiolaeth o'r darn darllen i gefnogi eich ateb. [2]

e.e.
- Mae protestio yn gallu gwneud gwahaniaeth.
- Mae gan bawb yr hawl i gael eu trin yn gyfartal.

**0 marc**
Dim ateb/ateb amherthnasol

**1 marc**
Trafod neges yr awdur yn fras

**2 farc**
Trafod neges yr awdur yn dda

Dehongli a rhesymu

© WJEC CBAC Cyf.

**A10.** Sut mae'r awdur yn llwyddo i gyflwyno'r neges yn y darn? [6]

**0 marc**
Dim ateb/ateb amherthnasol

**1 marc**
Ateb byr iawn – ymgais i drafod arddull/technegau'r testun yn fras neu yn cyflwyno ffeithiau yn unig.

**2 farc**
Ymdrech eithaf da i drafod arddull/technegau'r testun gan gynnwys ambell enghraifft/dyfyniad.

**3 marc**
Ymdrech dda i drafod arddull/technegau a ddefnyddir yn y testun gan gynnwys ambell enghraifft/dyfyniad a dechrau dadansoddi.

**4 marc**
Trafod arddull/technegau yn dda gan gynnwys enghreifftiau/dyfyniadau perthnasol yn gyson a dadansoddi'n dda a chyson.

**5 marc**
Trafod arddull/technegau yn dda iawn gan gynnwys enghreifftiau/dyfyniadau perthnasol yn gyson a dadansoddi'n dda iawn.

**6 marc**
Trafod arddull/technegau yn ddeallus gan gynnig dyfyniadau/cyfeiriadau yn gyson a dadansoddi'n aeddfed.

Gellir cyfeirio at y canlynol:

| | |
|---|---|
| Ailadrodd | e.e. "…cael mwynhau'r awel oer. Cael profi rhyddid." Roedd… anghyfforddus |
| Trosiad | e.e. Chwyldro, ar flaen y gad, |
| Ebychnodau | e.e. Buddugoliaeth! |
| Ansoddeiriau | e.e. Anghyfforddus, poethaf, awel oer, |
| Rhestr | e.e. "Roedd rhai ohonom ni'r bechgyn wedi eu benthyca gan ein cariadon, eraill gan ein chwiorydd. Roedd ambell un wedi mynd i hwyl go iawn ac wedi siafio'i goesau!" "Cyngor Ysgol, y rhieni a'r llywodraethwyr" |
| Idiom | e.e. Llond bol, chwysu chwartiau, tynnu coes, aeth ein chwyldro ni ar led |
| Brawddegau Byrion | e.e. "Cael profi rhyddid", "Buddugoliaeth!" |
| Person 1af | Adrodd o safbwynt y bachgen |
| Gorffennol + Presennol | Edrych yn ôl ar y digwyddiad gan sôn am yr hyn a ddigwyddodd wedyn. |
| Cwestiwn Rhethregol | e.e. Rhywiaethol ta be? |
| Rhif | e.e. "30°C" |

| | |
|---|---|
| Tafodiaith yn De | e.e. “Ac rwy’n cytuno’n llwyr ag e.” |
| Geirfa mynegi barn | e.e. “Ac rwy’n cytuno’n llwyr ag e.” |
| Dyfyniad | e.e. “hynod anghyfforddus” bachgen o Ysgol Gyfun Abersaint. |
| Ffaith | “Roedd y diwrnodau poethaf ers 1976” |

Gwerthuso a dadansodd

**Darn Darllen 6**
**Canllawiau statudol newydd ynglŷn â gwisg ysgol yng Nghymru**

**A11**. Pam mae'r gair "rhaid" wedi'i dduo / mewn print trwm yn y dyfyniad isod? [1]

| |
|---|
| Mae Llywodraeth Cymru eisiau cyflwyno 'Canllawiau Statudol' newydd ar bolisïau gwisg ysgol ac ymddangosiad. Oherwydd y bydd y canllawiau newydd yn rhai 'statudol', bydd ganddynt sail gyfreithiol, ac felly bydd yn **rhaid** i ysgolion eu dilyn pan fyddant yn cyflwyno gwisg ysgol, neu'n bwriadu newid gwisg ysgol. |

Er mwyn pwysleisio mai gorchymyn ydyw (bydd y canllawiau yn rhai statudol y bydd rheidrwydd ar ysgolion eu dilyn)

**A12**. Enwch ddwy ffordd mae'r llywodraeth am geisio gwella profiad teuluoedd o wisg ysgol yn y dyfodol. [2]

- bod y wisg ysgol yn **fforddiadwy**, yn ogystal ag ystyried **cost** y wisg ysgol, a pha mor hawdd fydd hi i ddisgyblion a'u rhieni/gofalwyr brynu eitemau o'r wisg
- **ni ddylai**'r wisg ysgol y bwriedir ei chael **gynnwys gwahanol eitemau o ddillad a bennir ar sail rhyw/rhywedd**
- bod yna **ddull gweithredu synhwyrol a hyblyg o ran gwisg ysgol** a all ystyried amodau **tywydd**

Unrhyw 2 o'r uchod

Rhesymu a dehongli

© WJEC CBAC Cyf.

**Cwestiwn B1 a B2 (20 marc)**

| | *CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)* | *YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)* |
|---|---|---|
| **Band 5** | **9-10 marc**<br>• Ysgrifennu aeddfed a threiddgar<br>• Ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd trwy gydol y darn<br>• Addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu | **9-10 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir<br>• Gafael sicr iawn ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol<br>• Defnydd eang o gystrawennau cywir<br>• Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad<br>• Gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 4** | **7-8 marc**<br>• Ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol<br>• Ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn | **7-8 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir<br>• Gafael sicr ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• Defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir<br>• Defnydd cywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu sicr<br>• Gafael sicr ar dreigladau<br>• Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 3** | **5-6 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan<br>• Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu<br>• Gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur | **5-6 marc**<br>• Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir<br>• Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau<br>• Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan<br>• Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi<br>• Sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir<br>• Mwyafrif y treigladau yn gywir<br>• Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |

© WJEC CBAC Cyf.

| | ***CYFATHREBU A THREFN***<br>***(YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 2** | **3-4 marc**<br>• Peth ysgrifennu cydlynol<br>• Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darllenydd<br>• Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau | **3-4 marc**<br>• Defnyddio peth ystod o eirfa<br>• Gafael anghyson ar ramadeg<br>• Amrywio brawddegau rywfaint<br>• Peth gafael ar gystrawen<br>• Peth gafael ar ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn eithaf cywir<br>• Treigladau yn eithaf cywir<br>• Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |
| **Band 1** | **1-2 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol elfennol<br>• Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r darllenydd<br>• Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa<br>• Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson<br>• Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau | **1-2 marc**<br>• Ystod gyfyngedig o eirfa<br>• Gafael gyfyngedig ar ramadeg<br>• Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau<br>• Gafael gyfyngedig ar gystrawen<br>• Peth ymdrech i atalnodi<br>• Sillafu rhai geiriau yn gywir<br>• Gafael gyfyngedig ar dreigladau<br>• Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |



© WJEC CBAC Cyf.